

LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU

Cofnodion Cyfarfod Bwrdd yr Ymddiriedolwyr

a gynhaliwyd yn Aberystwyth

ddydd Gwener, 30 Medi 2016

SESIWN AGORED 10.30 – 1.00

Presennol:

Ymddiriedolwyr:

Rhodri Glyn Thomas, Llywydd
Phil Cooper
Hugh Thomas
Yr Arglwydd Aberdâr

Colin R. John, Trysorydd
Roy Roberts
Lis Siberry
Huw Williams

Iwan Davies
Susan Davies
Roy Evans
Richard Houdmont

Tîm Gweithredol:

Linda Tomos
David Michael
Pedr ap Llwyd

Prif Weithredwr a Llyfrgellydd
Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol
Cyfarwyddwr Casgliadau a Rhaglenni Cyhoeddus

Staff:

Carol Edwards
Annwen Isaac
Mererid Jones

Rheolwr Llywodraethiant a Chlerc Bwrdd yr Ymddiriedolwyr
Ymgynghorydd Adnoddau Dynol
Pennaeth Cyllid a Menter [ar gyfer Adrannau 4 a 5]

Hefyd yn bresennol:

| | |
|-----------------|---------------------|
| Mary Ellis | MALD |
| Rebecca Johnson | MALD |
| Siân Thomas | Cyngor Partneriaeth |
| Doug Jones | Cyngor Partneriaeth |

Adran 1

1.1 Croeso'r Llywydd ac Ymddiheuriadau

Croesawodd y Llywydd, Rhodri Glyn Thomas, bawb a oedd yn bresennol i'r cyfarfod .

Ymddiheuriadau

Nid oedd unrhyw ymddiheuriadau wedi eu derbyn ymlaen llaw, ond yn dilyn y cyfarfod, derbyniwyd ymddiheuriadau gan Dyfrig Jones.

1.2 Datgan Buddiannau

Datganodd Huw Williams ei fod yn aelod o Geldards LLP ac ers 1 Medi 2015 mae Geldards wedi bod yn un o nifer o gwmnïau a benodwyd i Fframwaith Cyfreithwyr Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol Cymru y mae'r Llyfrgell yn bwriadu ei ddefnyddio i fodloni ei gofynion o ran gwasanaethau cyfreithiol. Hefyd, mae Geldards yn parhau i gynghori'r Llyfrgell ar nifer o faterion parhaus dan gyfundeb gwasanaethau cyfreithiol blaenorol a ddyfarnwyd trwy dendr cystadleuol.

Datganodd Liz Siberry ei bod yn aelod o Gyngor Prifysgol Cymru ar gyfer eitem 2.1 ar yr agenda.

Datganodd Susan Davies ei bod yn parhau yn gysylltiedig â Phrifysgol Aberystwyth ar gyfer eitem 2.1 ar yr agenda.

Datganodd Iwan Davies ei fod yn ddarlithydd addysg uwch, eto ar gyfer eitem 2.1 ar yr agenda.

1.3 Cymeradwyo cofnodion cyfarfod 22 Gorffennaf 2016

Nodwyd fod angen y cywiriadau canlynol o dan eitem 6.2 yn y cofnodion Saesneg - "outcomes" sydd yn gywir, ac nid "outputs".

O dan eitem 4.1, eglurwyd fod rhent y Comisiwn o £95k yn rhan o'r arian a dderbyniwyd flwyddyn ddiwethaf, ac mae trafodaethau yn mynd ymlaen i geisio alinio'r rhent gyda'r flwyddyn ariannol.

Cadarnhaodd Linda y bydd drafft o Strategaeth Codi Incwm yn barod erbyn cyfarfod y Bwrdd ym mis Tachwedd.

Adran 2 Materion byw ac angen penderfyniadau

2.1 Partneriaethau Addysg Uwch – y ffordd ymlaen

Cytunwyd y byddai Linda yn paratoi papur egwyddorion fydd yn amlygu'r opsiynau posib o ran ffurfio partneriaethau gyda sefydliadau addysg uwch. Mi fydd Linda yn trafod gyda WHELP (Wales Higher Education Libraries Forum) a HEW (Higher Education Wales) i hwyluso dealltwriaeth Linda o strategaethau prifysgolion ac i geisio eu barn am y datblygiad yma.

GWEITHRED: PENDERFYNIAD YR AELODAU OEDD GOFYN I LINDA BARATOI PAPUR AR YR EGWYDDORION SYDD YN BWYSIG I'R LLYFRGELL WRTH YSTYRIED SEFYDLU PARTNERIAETHAU GYDA SEFYDLIADAU ADDYSG UWCH

2.2 Strategaeth Drafft Marchnata a Chynllun 6 Misol

Cyflwynodd Linda ddrafft o'r Strategaeth a chynllun 6 misol, gan ddiolch i'r Is-bwyllgor Marchnata am eu sylwadau a'u trafodaethau wrth ddatblygu hyn.

Yn Atodiad 1, gwelir y cynllun gwaith ar gyfer Chwefror - Medi 2016, ac roedd Linda am gydnabod ei diolch i bawb sydd wedi cydweithio i gyflawni'r amcanion hyd yma. Mae'r Grŵp Cyflawni bellach wedi mabwysiadu marchnata a hyrwyddo fel rhan o'u gwaith craidd, a dyma'r newid mwyaf sylweddol sydd wedi digwydd yn fewnol; y Grŵp yma hefyd fydd yn gyfrifol am y Strategaeth Marchnata newydd.

Mi fydd yr Uned Hyrwyddo serch hynny yn parhau i ddelio gyda'r wasg ac i drefnu digwyddiadau mewnol ac allanol. Mae'r wasg wedi amlygu storiâu diddorol a phositif am y Llyfrgell ers mis Ionawr 2016, sydd yn ddo'i hun yn brawf o lwyddiant.

Nodwyd fod yr Adolygiad Blynyddol wedi ei dderbyn yn ffafriol, a'r bwriad flwyddyn nesaf fydd paratoi fersiwn ddigidol o'r Adolygiad.

Mae'n presenoldeb yn y cyfryngau cymdeithasol a marchnata electronig hefyd wedi gwella, yn enwedig ar Wikipedia. i geisio hyrwyddo a chynyddu ein presenoldeb digidol, mae bwriad penodi swyddog ac arbenigedd o hyrwyddo digidol o fewn yr adnoddau sydd ar gael.

Roedd Linda am gydnabod mewnbwn yr Is Bwyllgor Marchnata i'r Strategaeth, gan hefyd nodi mai dogfen gychwynnol oedd hon, ond yn ddogfen sydd yn ceisio argyhoeddi staff o bwysigrwydd marchnata, a'u sicrhau bod hyfforddiant ar gael iddynt yn y maes yma.

Derbyniwyd sylwadau gan yr Aelodau, a bydd Linda yn ystyried y rhain yn llawn wrth baratoi drafft pellach.

GWEITHRED: PENDERFYNIAD YR AELODAU OEDD Y DYLAI'R IS BWYLLGOR MARCHNATA BARHAU I GYFARFOD, A DOD AC ADRODDIAD A CHYNLLUN PELLACH I GYFARFOD MIS TACHWEDD.

2.3 Strategaeth Drafft Cyfathrebu Mewnol ac Ymgysylltu

Cyflwynodd Linda'r Strategaeth gan nodi ei bod yn awyddus i gynnal ymgynghoriad mewnol gyda staff ac undebau, gan fod perchnogaeth y Strategaeth yma gan staff yn holl bwysig.

Nodwyd mai ffigyrau cychwynnol yw'r dangosyddion cyflawni yn Atodiad 1 ac mi fydd angen trafodaethau gyda staff i weld os yw'r rhain yn ymarferol. Maent wedi eu seilio ar holiaduron sydd wedi eu cwblhau yn y gorffennol a meincnodi gyda sefydliadau eraill.

Nodwyd fod pwynt 2.2 yn y fersiwn Gymraeg yn wahanol i'r Saesneg; cytunwyd i gysoni'r ddwy fersiwn, ac anfon fersiynau diwygiedig allan

Yn dilyn derbyn sylwadau gan yr Aelodau mi fydd Linda yn adolygu'r Strategaeth ac yn cynnal trafodaethau gyda staff. Mi fydd Linda yn dod yn ôl at y Bwrdd ym mis Tachwedd gyda fersiwn wedi ei chymeradwyo gan y staff a'r undebau.

GWEITHRED: CYSONI'R FERSIWN GYMRAEG A SAESNEG, AC ANFON FERSIYNAU DIWYGIEDIG AT YR AELODAU

2.4 Strategaeth y Llyfrgell 2017 – 2020

Nododd y Llywydd y bydd cyfarfod mis Tachwedd yn canolbwyntio ar drafod y Strategaeth , a gwahoddodd yr Aelodau i gyfarfod arbennig ar brynhawn ddydd Iau, 3 Tachwedd i drafod y Strategaeth, fel bod modd penderfynu a chadarnhau'r penderfyniadau yn y cyfarfod ar 4 Tachwedd.

Nododd Linda ei bod am ddrafftio dogfen ymgynghorol yn gyntaf i'w rhannu gyda staff, ac mi fydd y ddogfen derfynol yn cael ei chyflwyno i'r Bwrdd i'w chymeradwyo ym mis Chwefror, cyn ei hanfon at y Gweinidog.

Eglurodd Linda fod y dewis o deitl, Cof y Genedl, yn mynd a'r Llyfrgell yn ôl at eu gwreiddiau fel llyfrgell hawlfraint, ac i'r gwasanaethau craidd. Roedd Linda hefyd yn awyddus i weld y strategaeth nesaf yn canolbwyntio ar gryfderau'r Llyfrgell, ac mae angen pwysleisio i'r Gweinidog beth sydd yn ein gwneud ni yn wahanol i lyfrgelloedd a sefydliadau eraill.

Ategodd y Llywydd sylwadau Linda gan ychwanegu fod yn rhaid i'r Bwrdd a'r rheolwyr ddweud wrth y Gweinidog beth fydd cyfeiriad y Llyfrgell am y 10 mlynedd nesaf, gan ofyn am ei gefnogaeth wrth symud ymlaen. Gofynnodd y Llywydd i'r Aelodau anfon eu sylwadau ar y drafft cychwynnol i Linda yn ysgrifenedig.

GWEITHRED: AELODAU I ANFON SYLWADAU AR DDRAFFT CYCHWYNNOL STRATEGAETH 2017 - 2020 YN YSGRIFENEDIG AT LINDA

Adran 3 Gwybodaeth a Diweddariadau

3.1 Penodi Is Lywydd ac Ymddiriedolwyr

Yn dilyn cyfarfod y Bwrdd, mi fydd panel yn cyfarfod i fynd trwy'r ceisiadau ar gyfer penodi Is Lywydd a thri Ymddiriedolwr. Mi fydd y cyfweiliadau yn cael eu cynnal ar 27 Hydref, gyda'r ymgeiswyr llwyddiannus yn dechrau ar 1 Rhagfyr. Mae 13 wedi ymgeisio, ac mi fydd y panel sifftio yn edrych ar y ceisiadau yng nghyd-destun cyfeiriad y Llyfrgell a'r anghenion o ran sgiliau a phrofiad. Mi fydd dau yn benodiad Llywodraeth Cymru, ac un yn benodiad y Llyfrgell. Mae'r Is Lywydd yn benodiad Llywodraeth Cymru hefyd.

3.2 Materion yn ymwneud â'r adeilad

Nododd Huw Williams fudd penodol yn y mater yma gan fod Geldards yn parhau i gynghori'r Llyfrgell yn achos y tan.

Adroddodd David Michael ar y diweddaraf ynglŷn â'r tan. Ni fydd y Llyfrgell yn dilyn achos yn erbyn y cwmni adeiladu, na'r cwmni oedd yn yswirio'r adeiladwyr, ond mae Geldards yn dilyn achos yn erbyn yswirwyr y penseiri. Disgwylir derbyn ymateb i hyn erbyn y Nadolig.

3.3 Cais CDL / BBC

Mi fydd y penderfyniad ynglŷn â chais y Llyfrgell i Gronfa Treftadaeth y Loteri i dderbyn archif y BBC i'r Llyfrgell yn cael ei wneud ar 15 Tachwedd gan Fwrdd y Loteri yn Llundain. Mae trafodaethau cadarnhaol wedi cymryd lle yn barod, ac mi fydd caffael yr archif yma yn cynnig mynediad i'r cyhoedd i archif bwysig yn hanes darlledu yng Nghymru.

3.4 Defnydd o sêl y Llyfrgell

Cyflwynwyd adroddiad i'r Ymddiriedolwyr ar y defnydd o sêl y Llyfrgell; mae hyn yn unol â phwynt 12.2 o Reoliadau 2006.

3.5 Adroddiad Cynnydd 6 Misol ar y Cynllun Gweithredu

Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Aelodau ar y cynnydd sydd wedi eu gwneud yn erbyn y targedau. Nid oedd sylwadau gan yr Aelodau ar yr adroddiad.

Adran 4 Materion Ariannol

4.1 Adroddiad Cyllidebol hyd 30.08.16

Mae sefyllfa ariannol staffio'r Llyfrgell yn un weddol gadarnhaol oherwydd y swyddi tymor byr sydd yn wag.

Mae'r Llyfrgell wedi derbyn Grant Pwrcasu o £200,000 tuag at wariant yn 2016-2017, ac mi fydd yn derbyn £105,000 ychwanegol tuag at ddatblygu isadeiledd technegol. Mae 4 prosiect wedi eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru parthed gwariant yr £105,000 ac mae'r Llyfrgell yn aros i glywed am gymeradwyaeth pa brosiectau fydd yn llwyddiannus.

Mae incwm masnachol y Llyfrgell yn uwch na'r targed 5 mis sydd wedi ei osod. Mae'r Grŵp Incwm Masnachol yn cyfarfod yn rheolaidd i ffocysu ar y gwaith yma, ond nodwyd fod problem gyda'r siop ar-lein sydd ddim yn perfformio yn dda. Mae cynlluniau ar y gweill i wella hyrwyddo'r siop ar-lein yn y misoedd nesaf.

Gan fod Pendinas wedi gwneud colled hyd at ddiwedd mis Awst, yn bennaf oherwydd costau agor ar ddydd Sadwrn a Gŵyl y Banc, awgrymwyd efallai y dylid ystyried gosod peiriannau talu yn lle staffio Pendinas.

Nodwyd hefyd y bydd yn rhaid i'r Llyfrgell dalu ardoll prentisiaeth o £25,000 ar gyfer y ddau brentis sy'n cael eu cyflogi trwy gynllun y Cyfeillion. Mae angen i'r Llyfrgell wneud ymholiadau pellach ynglŷn â hyn.

GWEITHRED: ANGEN GWNEUD YMHOLIADAU PELLACH YNGLŷN Â'R ARDOLL PRENTISIAID FYDD YN RHAID I'R LLYFRGELL EI DALU

4.2 Gwerthusiad y Cynllun Pensiwn

Mae'r Llyfrgell wedi derbyn drafft o brisiad y Cynllun Pensiwn, ac mi fydd Bwrdd Ymddiriedolwyr y Cynllun Pensiwn yn trafod y prisiad gyda'r actiwari yng nghyfarfod Bwrdd y Cynllun yn y Llyfrgell ar 5 Hydref.

Mae cost ariannu'r cynllun tuag at y dyfodol yn broblem ac mi fydd angen ystyried cost y cyfraniadau a sut gellid ariannu hyn. Mi fydd adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd ym mis Tachwedd.

Diolchodd y Llywydd i Colin John, Cadeirydd Bwrdd Ymddiriedolwyr y Cynllun Pensiwn, a David Michael am eu gwaith yn y maes yma.

Adran 5 Adroddiadau o Bwyllgorau

Cyflwynwyd adroddiad llafar gan Colin o'r cyfarfod Is Bwyllgor Cynllunio Ariannol a gyfarfu ar 12 Medi, gan ddechrau trwy ddiolch i Huw Williams am gael cynnal y cyfarfod yn swyddfeydd Geldards yng Nghaerdydd.

Yn y bore, cafwyd cyflwyniad gan ddau gynrychiolwr o gwmni Investec, sydd yng ngofal cronfeydd preifat y Llyfrgell, a nododd Colin fod y ddau bortffolio yn perfformio'n foddhaol ar hyn o bryd. Awgrymwyd y dylid gosod y cyflwyniad ar wefan yr Aelodau.

Un peth fydd angen sylw'r Aelodau yn fuan yw a ddylid ystyried tynnu peth o'r arian i lawr yn y tymor byr i ddigolledu'r gyllideb am y flwyddyn neu ddwy nesaf, neu i gyfateb ag arian prosiectau.

Trafodwyd y Polisi Buddsoddi, ac mae gwaith pellach i'w wneud ar hwn cyn iddo gael ei gyflwyno i'r Bwrdd am sylwadau a chymeradwyaeth.

Cynhaliwyd cyfarfod yr Is Bwyllgor yn y prynhawn gyda Linda yn ymuno â'r cyfarfod dros y ffon. Trafodwyd sefyllfa ariannol y Llyfrgell hyd at ddiwedd Gorffennaf, ynghyd a chyllideb 2017 - 2018, ac unrhyw faterion fedrai effeithio ar y gyllideb hynny - cynllun pensiwn, newid yn nhelerau diswyddo a'r cyllid fydd ar gael flwyddyn nesaf.

Trafodwyd hefyd berfformiad cwmni Investec, sydd wedi bod yn edrych ar ôl portffolio'r Llyfrgell am nifer o flynyddoedd. Dros gyfnod o 5 mlynedd mae eu perfformiad yn 46.8% yn erbyn meincnod o 46.5%. Nid oes unrhyw broblem gyda'r cwmni ond fel ymarfer llywodraethiant da, awgrymodd Colin y dylid mynd allan i dendr yn ystod 2017 - 2018.

Mae'r Cynllun Pensiwn hefyd yn cael ei adolygu fel rhan o weithgaredd yr Is Bwyllgor.

Nodwyd nad oes Cylch Gorchwyl yn bodoli ar gyfer y Grŵp yma, a chytunodd yr Aelodau y dylid drafftio un yn fuan, ond y dylid aros am adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru cyn penderfynu trosi'r Pwyllgor yn un o bwyllgorau sefydlog y Bwrdd.

GWEITHRED: GOSOD CYFLWYNIAD INVESTEC AR WEFAN YR AELODAU

GWEITHRED: CYTUNWYD I DDRAFFTIO CYLCH GORCHWYL I'R GRŴP YMA

Adran 6 Busnes y Llywydd a'r Llyfrgellydd

6.1 Busnes y Llywydd

Nododd y Llywydd y bydd y dangosyddion perfformiad am y cyfnod Ebrill - Gorffennaf a'r Adroddiad Uchafbwyntiau yn cael eu gosod ar wefan yr Aelodau cyn gynted â phosib ar ôl diwedd y cyfnod adrodd.

6.2 Busnes y Llyfrgellydd

Diolchodd Linda i'r Bwrdd ac i aelodau unigol am eu hamser a'u cyngor iddi, gan groesawu unrhyw gwestiynau oedd gan yr Aelodau iddi hi, neu'r i'r ddau Gyfarwyddwr.

Unrhyw fater arall

Roedd Huw Williams am ddatgan ei ddiolch i Linda a Pedr am drefnu iddo gael copi o lun Sir Samuel Griffiths, Prif Ustus cyntaf Awstralia i'w roi yn rhodd i'r Prif Ustus presennol. Cafodd hwn ei gyflwyno i'r Prif Ustus mewn cinio ar 15 Medi, a bydd yn cael ei hongian yn yr Uchel Lys yn Canberra.

I orffen y cyfarfod, diolchodd y Llywydd i'r Aelodau am eu cydweithrediad wrth symud y Llyfrgell yn ei blaen, a nododd ei fod yn edrych ymlaen at gyfarfod cyffrous a heriol ym mis Tachwedd pan fydd y Strategaeth nesaf yn cael ei thrafod.